**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Tachwedd 2019

Annwyl Vaughan

**Gwaith dilynol ar yr ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol**

Diolch am y **diweddariad a gawsom gennych ar 1 Hydref 2019** yn amlinellu hynt yr ymchwiliad i iechyd meddwl amenedigol. Trafodwyd y wybodaeth yn ein cyfarfod ar 24 Hydref.

Ar sail eich ymateb, rydym wedi penderfynu ymgymryd â rhagor o waith ar iechyd meddwl amenedigol, a byddwn yn:

- gwahodd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar Iechyd Meddwl Amenedigol i roi tystiolaeth mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol; ym mis Chwefror 2020;
- gwahodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i roi tystiolaeth mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol ym mis Chwefror 2020, er mwyn archwilio darpariaeth unedau mamau a babanod (MBU) yn benodol;
- gofyn am ddatganiad Cadeirydd yn y Cyfarfod Llawn ar ddyddiad priodol yn y dyfodol i dynnu sylw'r Cynulliad at hynt y gwaith yn y Siambr.

I'n helpu â'n gwaith craffu, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau:

- a fyddwch chi'n paratoi amlinelliad manylach o'r prif gerrig milltir rydych yn gweithio tuag atynt o ran darparu cymorth iechyd meddwl amenedigol, fel y nodwyd yn ein llythyr dyddiedig **24 Mai 2019**;
- pryd y byddwn yn cael eich diweddariad 6 mis nesaf.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565